

Telerau ac amodau'r Gystadleuaeth Ffotograffau

1. Mae'r gystadleuaeth ar agor i drigolion y Deyrnas Unedig sy'n 13 oed a throsodd. Rhaid i gystadluwyr o dan 18 oed fod wedi sicrhau caniatâd rhiant neu warcheidwad (a byddant yn darparu'r manylion cyswllt angenrheidiol i ni os byddwn yn dymuno gwirio hynny). Nid yw cyflogeion Cyngor Castell-nedd Port Talbot a'r rhai a fu'n ymwneud â chynhyrchu Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol Castell-nedd Port Talbot mewn unrhyw gapasiti yn gymwys i gyfranogi yn y gystadleuaeth hon.
2. Ni chodir tâl am gystadlu, ac nid oes angen prynu dim i gynnig yn y gystadleuaeth. I gyflwyno cynnig, e-bostiwch: greener@npt.gov.uk neu anfonwch eich cais trwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y cyngor #teithiollesolCNPT.
3. Hyrwyddwr y gystadleuaeth yw Cyngor Castell-nedd Port Talbot ('y Cyngor').
4. I gystadlu: rhaid anfon ffotograffau i'r cyfeiriad e-bost neu ar y cyfryngau cymdeithasol erbyn 16 Awst 2021. Bydd y ffotograffau'n dangos y cyfranogwr ar lwybrau cerdded neu feicio sydd ar y Map o'r Rhwydwaith Teithio Llesol.
5. Nid yw Castell-nedd Port Talbot yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gynigion nad ydynt yn dod i law yn llwyddiannus oherwydd nam technegol o unrhyw fath, cynigion hwyr, coll neu a ddaliwyd yn ôl, na methiannau rhwydwaith, caledwedd neu feddalwedd cyfrifiadurol a allai achosi oedi neu atal mynediad i'r gystadleuaeth. Ni dderbynnir prawf o drosglwyddo fel prawf o gystadlu. Gallwn wrthod unrhyw gynnig a gyflwynir mewn fformat arall, neu sy'n anghyflawn, yn annarllenadwy, wedi'i ddifrodi neu'n defnyddio copi o ffurflen swyddogol. Rydym hefyd yn cadw'r hawl i wrthod cynigion sy'n anghyfreithlon, yn hiliol, yn ymfflamychol, yn ddifenywol, neu yr ydym ni'n barnu eu bod yn niweidiol mewn rhyw fodd arall.
6. Dim ond un cynnig sydd i bob person. Rydym ni'n cadw'r hawl i ddiarddel unrhyw ymgeisydd sy'n defnyddio nifer o enwau a/neu nifer o gyfeiriadau e-bost. Os byddwch chi'n defnyddio eich cyfrifiadur gwaith, gallai fod angen caniatâd eich cyflogwr arnoch chi cyn cystadlu.

7. Mae'r gystadleuaeth yn agor ar 30 Gorffennaf 2021 ('y Dyddiad Agor') ac yn cau ar 16 Awst 2021 ('y Dyddiad Cau'). Caiff pob cynnig fydd yn cyrraedd y gystadleuaeth wedi'r Dyddiad Cau ei ddiarddel yn awtomatig.

8. Y Wobr: dyfarnir gwobr i bob ymgeisydd sy'n cael eu cynnwys yn y fideos hyrwyddo terfynol, a'r wobwr fydd Fitbit Charge 4. Bydd y fideos hyrwyddo terfynol yn hyrwyddo'r ymgynghoriad Teithio Llesol ac yn annog ymateb: <https://neathporttalbot2.commonplace.is/>

9. Enillwyr: dewisir yr enillwyr gan y Cyngor i gael eu cynnwys mewn ffilm hyrwyddo am yr ymgynghoriad Teithio Llesol. Bydd penderfyniad y Cyngor yn derfynol, ac ni fyddwn yn cynnal gohebiaeth na thrafodaeth.

10. Byddwn yn hysbysu'r enillydd trwy e-bost, gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ddefnyddiwyd i gyflwyno'r cynnig i'r gystadleuaeth, erbyn 10 Medi 2021 [os na fydd enillydd yn ymateb i'r Cyngor o fewn 2 ddiwrnod gwaith o gael ei hysbysu gan y Cyngor, bydd gwobr yr enillydd yn cael ei fforffedu, a bydd hawl gan y Cyngor i ddewis enillydd arall, yn unol â'r broses a ddisgrifiwyd uchod.]

11. Dosbarthir y wobwr i'r enillydd trwy wasanaeth post y Deyrnas Unedig. Gofynnir i'r enillydd ddarparu cyfeiriad postio i anfon y wobwr iddo. Ni fyddwn ni'n atebol am unrhyw wobrau sy'n mynd ar goll, yn cael eu dal yn ôl, neu'n cael eu difrodi yn y post am resymau y tu hwnt i'n rheolaeth resymol.

12. Defnyddir yr wybodaeth bersonol (enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost) a ddarparwyd gan yr ymgeiswyr, yn unol â'n [Hysbysiad Preifatrwydd](#). Dylech ddarllen ein Hysbysiad Preifatrwydd yn ogystal â'r telerau a'r amodau hyn. Mae modd i bob ymgeisydd sicrhau bod eu manylion yn cael eu dileu o'n cofnodion trwy gysylltu â ni. Os caiff eu manylion eu dileu cyn i'r gystadleuaeth ddod i ben a/neu cyn dyfarnu'r wobwr, ni fydd yr ymgeiswyr yn rhan o'r gystadleuaeth bellach. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gyhoeddi enwau'r enillwyr. Trwy gystadlu, rydych chi'n cytuno i gymryd rhan mewn gweithgareddau hyrwyddo/cyhoeddusrwydd pellach, megis defnyddio eich ffotograffau mewn fideos hyrwyddo a gwaith y Cyngor i hyrwyddo teithio llesol (byddwch yn cael eich hysbysu cyn gweithgareddau o'r fath).

13. Mae ymgeiswyr yn gwarantu mai nhw yw'r person yn y ffotograff a/neu eu bod wedi cael caniatâd ymlaen llaw gan bawb sydd yn y ffotograff i'w gyflwyno fel cynnig yn y gystadleuaeth. Mae'r ymgeiswyr yn cytuno bod gennym ni hawl i gyhoeddi'r ffotograff a'i gyflwyno i'r cyhoedd mewn unrhyw gyfryngau, ac mae'r ymgeiswyr yn cytuno bod gennym ni hawl i ddefnyddio enwau, delweddau a gwybodaeth bersonol arall a gyflwynwyd ochr yn ochr â'r ffotograff.

14. Trwy gynnig yn y gystadleuaeth mae pob ymgeisydd yn trosglwyddo i ni yr holl hawliau eiddo deallusol (gan gynnwys hawlfraint yn awr ac yn y dyfodol) ar gyfer eu cynnig a'u deunyddiau cyhoeddusrwydd ym mhob cyfrwng (gan gynnwys, heb gyfyngiadau, y rhyngrwyd) a ph'un a ydynt yn bodoli nawr neu'n cael eu creu yn y dyfodol, ac maent yn rhoi ymgymeriad i ni nad yw eu cynnig yn torri unrhyw hawliau eiddo deallusol gan drydydd parti, ac na fydd yn cynnwys unrhyw beth sy'n ddifennol, yn anweddus, yn aflonyddu nac yn fygythiol, ac y byddant yn gwneud indemniad i ni am unrhyw golled, ddifrod neu atebolrwydd a gyfyd os canfyddir nad yw hyn yn wir.

15. Rydym yn cadw'r hawl i gyfnewid unrhyw wobrau am wobwr gyfwerth neu uwch ei gwerth os cyfyd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth. Nid oes modd cyfnewid na throsglwyddo gwobr yr enillydd, ac ni chynigir swm o arian yn lle'r wobwr.

16. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gynnal, diddymu, canslo, atal neu newid y gystadleuaeth, gyda disgresiwn absoliwt.

17. Bydd cyflwyno ffotograff yn y gystadleuaeth trwy ei anfon i greener@npt.gov.uk neu trwy'r cyfryngau cymdeithasol yn dangos eich bod yn derbyn y telerau a'r amodau hyn. Rydym yn cadw'r hawl i wrthod dyfarnu'r wobwr i unrhyw un y ceir eu bod wedi torri'r telerau a'r amodau hyn.

18. I'r graddau y caniateir hynny o dan y gyfraith, ni fydd y Cyngor, ei asiantau na'i ddosbarthwyr yn gyfrifol nac yn atebol, o dan unrhyw amgylchiadau, am roi iawndal i'r enillydd nac i dderbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw golled, difrod, anaf personol na marwolaeth a fydd yn digwydd o ganlyniad i dderbyn y wobwr, ac eithrio lle'r achosir hynny gan esgeulustod y Cyngor, ei asiantau neu

ei ddosbarthwyr, neu eu cyflogeion. Nid yw hyn yn effeithio ar eich hawliau statudol.

19. Ni fydd annilysrwydd neu fethiant i orfodi unrhyw un o ddarpariaethau'r Telerau a'r Amodau hyn yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth arall na'r gallu i'w gorfodi. Os bernir bod unrhyw ddarpariaeth yn annilys neu'n amhosibl ei gorfodi neu'n anghyfreithlon mewn unrhyw fodd arall, bydd y Telerau a'r Amodau hyn fel arall yn parhau mewn grym, a rhaid eu dehongli'n unol â'u telerau, fel pe na bai'r ddarpariaeth annilys neu anghyfreithlon wedi'i chynnwys ynddynt.

20. Dehonglir y telerau a'r amodau yn unol â Chyfraith Cymru a Lloegr.

Datganiad preifatrwydd

21. Bydd eich data personol yn cael ei drin yn unol â'n polisi preifatrwydd [<https://www.npt.gov.uk/16238>] Bydd data'n cael ei ddileu o system y Cyngor o fewn 6 mis. Defnyddir y ffotograffau buddugol mewn fideos hyrwyddo a chynnwys cysylltiedig â hyrwyddo Teithio Llesol yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot.